# Adroddiad Blynyddol
# 2025-26

GIG CYMRU NHS WALES



GIG CYMRU | NHS WALES
DIOGELU RHWYDWAITH | SAFEGUARDING NETWORK

# Cynnwys


**Cyflwyniad y Cadeirydd** 4

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Cenedlaethol** 5

**Ynglŷn â'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol** 5

**Arweinyddiaeth y Rhwydwaith, Llywodraethiant a Sicrwydd** 6

Arweiniad ynghylch rheoli honiadau am ddiogelu 6

Cryfhau diogelu yn y system arfarnu meddygol 7

**Sicrhau ansawdd diogelu** 8

Fframwaith Diogelu GIG Cymru 9

Datganiad Ansawdd a Metrigau Diogelu 10

Templed rhoi sicrwydd er mwyn hybu Dyletswydd Prevent 11

Rhannu gwaith dysgu o adolygiadau 12

**Llais y Plentyn/Oedolyn sy'n Wynebu Risg** 13

Egwyddorion amddiffyn plant cenedlaethol 14

Arolwg o blant sy'n derbyn gofal – adolygu'r adborth 15










| | |
|---|---|
| **Asesu a Chwilfrydedd Proffesiynol** | **17** |
| Holiadur Risg sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant | 17 |
| Arweiniad ynghylch defnyddio hebryngwyr | 18 |
| **Dysgu ar gyfer Diogelu** | **19** |
| Lansio fideos senarios diogelu sy'n seiliedig ar ddrama | 20 |
| Cynhadledd 'Ymddiriedaeth i Ddiogelu' | 21 |
| Digwyddiad Bord Gron ynghylch Cryfhau Diogelu Oedolion | 22 |
| Digwyddiad Dathlu Diogelu | 23 |
| **Ymarfer Rhanbarthol Arloesol** | **25** |
| Datblygu ac ehangu Swyddogaeth Ddiogelu Datix | 26 |
| Gwobr am Gryfhau Llais a Hawliau'r Plentyn / Oedolyn sy'n Wynebu Risg | 27 |
| Addewidion i blant sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal | 28 |
| Canolfan Rhithwir Iechyd Menywod | 29 |
| Uned cymorth iechyd meddwl amenedigol | 30 |
| Arweinydd ar gyfer y Llys Gwarchod ac eiriolaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol | 31 |
| Rheoli honiadau am ddiogelu mewn gwasanaethau ambiwlans | 32 |
| Gwasanaeth eirioli deublyg ar gyfer trais domestig a thrais rhywiol | 33 |
| Ffurflen asesu ddigidol ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol | 34 |
| Gweithredu dysgu yn dilyn adolygiadau diogelu | 35 |
| Prosiect Sgrinio Alcohol | 37 |
| Prosiect Peilot 'O Dan y Trothwy' Prevent | 38 |
| Gwella arweinyddiaeth ym maes diogelu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru | 39 |
| Gweithredu Modiwl Diogelu Datix | 40 |
| **Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol** | **41** |










**Awdur: Shamala Govindasamy**
**Ebost: NSS@wales.nhs.uk**
**Mehefin 2026**



# Cyflwyniad y Cadeirydd

**Croeso i Adroddiad Blynyddol 2025–2026 Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru.**

Fel Cadeirydd, mae'n fraint cael myfyrio ynghylch blwyddyn arwyddocaol o gynnydd, cydweithio a thrawsnewid ar draws diogelu yn GIG Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ymrwymiad a chydarweinyddiaeth gweithwyr proffesiynol ym maes diogelu ar draws GIG Cymru i hybu lles a hawliau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu a hybu'r graddau y cânt eu hamddiffyn.

Yn ogystal â chyflawni cynllun gwaith cenedlaethol y Rhwydwaith, mae'r flwyddyn hon wedi cael ei diffinio gan ein cyfraniad at weithredu'r *Adolygiad Cryfhau Diogelu ym maes Iechyd* a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio. Mae'r gwaith hwn wedi cynnig cyfle pwysig i fyfyrio ynghylch dyfodol diogelu yn GIG Cymru ac i greu dull mwy cyson, atebol a chynaliadwy o weithredu ar draws y system.

Un cyflawniad allweddol oedd datblygu Fframwaith Diogelu newydd GIG Cymru, y bwriedir iddo gryfhau cyfeiriad strategol, llywodraethiant, gwelliant o ran ansawdd, sicrwydd, a chanlyniadau. Mae'r Fframwaith yn gam mawr ymlaen tuag at greu system ddiogelu fwy cysylltiedig a gaiff ei harwain yn fwy helaeth gan ddeallusrwydd, sy'n rhoi mwy o bwys ar atal, dysgu, ymyrryd yn gynnar, a sicrhau effaith y gellir ei mesur ar gyfer pobl Cymru.

Mae ymarfer diogelu'n parhau i esblygu mewn amgylchedd sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae ansefydlogrwydd byd-eang, niwed digidol, achosion o gamfanteisio, anghydraddoldebau gwaeth, a chymhlethdod cynyddol bod yn agored i niwed yn parhau i ddylanwadu ar risgiau o ran diogelu ar draws cymunedau. Ar yr un pryd, mae'r pwysau sydd ar y gweithlu ar draws gwasanaethau iechyd a gofal yn parhau'n sylweddol, sy'n golygu bod angen i ni hybu a chynnal llesiant, gwydnwch a hyder proffesiynol ymhlith ymarferwyr ac arweinwyr diogelu.

Yn ystod y flwyddyn, mae digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol wedi dylanwadu ymhellach ar y dirwedd o ran diogelu. Mae'r dysgu sydd wedi deillio o'r drasiedi yn Southport, a'r trafodaethau dilynol ynghylch Prevent a diogelu'r cyhoedd, wedi atgyfnerthu pwysigrwydd adnabod pobl yn gynnar, rhannu gwybodaeth, meithrin chwilfrydedd proffesiynol, a gweithio mewn partneriaeth. At hynny, mae cyhoeddi'r Adolygiad *Cyfiawnder trwy ein Dewrder* wedi bod yn gyfle i fyfyrio'n ddwys am ddiwylliant sefydliadol, atebolrwydd, a'r angen i wrando ar bryderon a gweithredu ar eu sail cyn gynted ag sy'n bosibl. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn parhau i ddylanwadu ar flaenoriaethau diogelu ar draws GIG Cymru ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd sganio'r gorwel, atal, a dysgu ar draws y system.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Rhwydwaith wedi parhau i fuddsoddi mewn cydweithio, cymorth gan gymheiriaid, dulliau gweithredu adferol a datblygiad proffesiynol, gan gydnabod bod diogelu'n cael ei gryfhau drwy gydarweinyddiaeth a dysgu parhaus.

Er bod llawer wedi'i gyflawni, rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae ein huchelgais yn glir o hyd: creu systemau mwy diogel, gwella canlyniadau, a sicrhau bod diogelu'n parhau yn gyfrifoldeb i bawb.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo bod yr adroddiad hwn yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig, a hoffwn eich annog i rannu'r dysgu yn eang ar draws eich sefydliad a'ch partneriaethau.

**Louise Mann**
**Cadeirydd, Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru**

# Ynglŷn â'r Rhwydwaith Cenedlaethol

**Caiff 'y Rhwydwaith' ei arwain yn broffesiynol gan Wasanaeth Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru). Mae'n bont hanfodol rhwng strategaethau a threfniadau ar lefel leol a datblygiadau o ran polisi ar lefel genedlaethol er mwyn cynorthwyo Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu pobl.**

Mae'r Rhwydwaith a'i is-grwpiau yn darparu amgylchedd cymuned ymarfer ac yn hwyluso cydweithio, gwella sgiliau, sganio'r gorwel, rhannu heriau ac arfer gorau, datrys problemau ac arloesi. Elfen greiddiol o'r Rhwydwaith yw gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau ac ymyriadau diogelu, yn ogystal â lleihau'r graddau y mae ymarfer yn amrywio ar draws y GIG.

Caiff y Rhwydwaith ei gadeirio gan Louise Mann o'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol a'i gydgadeirio gan Fiona Davies o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

## Is-grwpiau

Mae is-grwpiau'r Rhwydwaith yn gymuned ymarfer ac yn hwyluso gweithgarwch gwella diogelu ar y cyd. Mae pum is-grŵp yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

1. Hyfforddiant a Dysgu
2. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
3. Y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
4. Plant sy'n Derbyn Gofal
5. Meddygon Arweiniol Cymru ar gyfer Diogelu

Mae aelodaeth yr is-grwpiau'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o bob rhan o GIG Cymru, sydd mewn sefyllfa dda i gyfrannu arbenigedd gweithredol, clinigol a strategol. Mae'r aelodau yn ychwanegu gwerth drwy ddarparu dealltwriaeth weithredol sy'n sicrhau bod arweiniad cenedlaethol yn berthnasol ac yn ymarferol. Mae Cadeiryddion yr is-grwpiau'n cwrdd yn rheolaidd drwy gymuned ymarfer i rannu ymarfer ym maes arweinyddiaeth, problemau, pryderon am ddiogelu, a chyfleoedd i gydgynhyrchu.

## Gwaith amlasiantaeth

Mae partneriaid y Rhwydwaith y tu allan i GIG Cymru yn cynnwys y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Swyddfa'r Comisiynydd Plant ac asiantaethau allweddol eraill. Mae'r dull hwn o weithio ar draws system yn hwyluso rhannu arfer da a rhaeadru gwybodaeth er mwyn hyrwyddo diogelu effeithiol ar draws pob sefydliad.

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

National Safeguarding Service
NHS Safeguarding for a Safer Wales

## Ynglŷn â'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol

**Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn darparu arweinyddiaeth gredadwy i'r system, gan ysbrydoli eraill a meithrin agweddau at ddiogelu ar draws system y GIG, sy'n seiliedig ar wella ansawdd. Mae'r gwasanaeth yn cydlynu ac yn rheoli'r gwaith a gyflawnir gan y Rhwydwaith.**

Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol medrus sy'n darparu arbenigedd strategol, ymarfer wedi'i safoni, cyfleoedd i wella sgiliau, ac arweiniad arbenigol i gydweithwyr ar draws GIG Cymru, sefydliadau amlasiantaeth a Llywodraeth Cymru.

# Arweinyddiaeth y Rhwydwaith, Llywodraethiant a Sicrwydd

## Arweiniad ynghylch rheoli honiadau am ddiogelu

**Mae arweiniad wedi'i ddatblygu i hybu dull cyson a thryloyw o reoli honiadau am ddiogelu ar draws GIG Cymru, sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.**

Mae'n adlewyrchu ymrwymiad cyffredin y Rhwydwaith i sicrhau bod diogelwch a llesiant unigolion yn ganolog i bob penderfyniad, ac i sicrhau hefyd bod aelodau o staff yn cael eu trin yn deg ac yn cael cymorth priodol drwy gydol prosesau diogelu a chyflogi.

### Y cyd-destun

Mae Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn amlinellu dulliau o reoli honiadau a phryderon yn erbyn gweithwyr a gwirfoddolwyr GIG Cymru (ymarferwyr/y rhai hynny sydd mewn swyddi cyfrifol). Mae'n darparu fframwaith wedi'i safoni ar gyfer ymateb i risgiau a achosir i blant neu oedolion, gan ganolbwyntio ar adrodd yn effeithiol, ymchwilio'n drylwyr, a sicrhau diogelwch drwy weithredu'n deg, yn gyson ac yn brydlon.

### Yr arweiniad

I hybu gweithredu'r gofynion hyn yn ymarferol, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu arweiniad gweithredol er mwyn helpu sefydliadau'r GIG i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru ac mae'n ymwneud ag ymarferwyr/y rhai hynny sydd mewn swyddi cyfrifol, sy'n cynnwys gweithwyr parhaol a dros dro, gweithwyr asiantaeth, contractwyr, gwirfoddolwyr, myfyrwyr a hyfforddeion.

Mae'n darparu fframwaith cenedlaethol i gynorthwyo GIG Cymru i fabwysiadu dull cyson, cymesur a chyfreithlon o reoli honiadau am ddiogelu sy'n ymwneud â chamdriniaeth neu ymddygiad niweidiol – p'un a yw'n digwydd yn y gweithle neu ym mywyd preifat unigolyn.

**Mae'r ddogfen yn cynnwys arweiniad sefydliadol sy'n ymdrin â'r canlynol:**

- Datganiad ansawdd
- Meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Gofynion polisi
- Rolau a chyfrifoldebau
- Asesiad risg sy'n amlinellu ystyriaethau risg sy'n benodol i ddiogelu, ac adnodd cysylltiedig i asesu risg
- Rhannu a chofnodi gwybodaeth
- Cymorth a chynrychiolaeth i staff
- Hyfforddiant
- Archwilio
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Rheoli diddordeb y cyfryngau

### Yn y dyfodol

Bydd yr arweiniad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth gyfredol.





# Cryfhau diogelu yn y system arfarnu meddygol

**Mae gwaith wedi'i gyflawni i gryfhau sicrwydd o ran diogelu yn y gweithlu meddygol drwy wella nifer ac ansawdd y cofnodion myfyriol ynghylch diogelu sydd yn y system genedlaethol ar gyfer arfarnu meddygol.**

## Y cyd-destun

Nid oedd y system flaenorol yn cynnwys maes pwnc penodol ar gyfer diogelu. Felly, roedd yna ddiffyg ysgogiad i fyfyrio ynghylch achosion neu gyfarfodydd a oedd yn ymwneud â diogelu. Roedd blwch ticio ar gael i gofnodi'r lefel yr oedd hyfforddiant ynghylch diogelu'n ei chyrraedd, ond roedd 'amherthnasol' ar gael fel opsiwn. Roedd hynny'n arwain at ganfyddiad bod hyfforddiant ynghylch diogelu'n hyfforddiant er mwyn ticio blwch yn unig, ac nad oedd yn cynnig unrhyw sicrwydd nac yn cyflawni unrhyw rôl ystyrlon yng nghyswllt cymwyseddau meddygon ym maes diogelu.

## Gweithgarwch

Mae gwaith ar y gweill i ymgorffori adran bwrpasol ar gyfer *Gweithgarwch Diogelu* yn y system arfarnu meddygol, a ategir gan arweiniad clir ac adnoddau i arfarnwyr.

Yn dilyn trafodaethau ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru, cytunwyd y dylai diogelu fod yn faes myfyriol allweddol yn y system newydd.

Mae dyluniad wedi'i sefydlu erbyn hyn ar gyfer y system ddigidol integredig newydd a fydd yn hybu addysg, hyfforddiant a recriwtio meddygol ar draws GIG Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n awr i ddeall sut y gallai'r system hon gysylltu â'r Cofnod Staff Electronig, sef system adnoddau dynol a chyflogres y GIG. Byddai creu'r cysylltiad hwn yn ei gwneud yn bosibl adrodd yn well ynghylch cyfranogiad mewn hyfforddiant ac ynghylch metrigau cydymffurfio meddygol, ar gyfer meddygon a gweithwyr proffesiynol ôl-raddedig ar draws GIG Cymru.

## Y camau nesaf

Bydd yr is-grŵp Meddygon Arweiniol Cymru ar gyfer Diogelu, sy'n rhan o Rwydwaith Diogelu GIG Cymru, yn datblygu hyfforddiant ar gyfer arfarnwyr, sy'n amlinellu disgwyliadau a dulliau o werthuso cymwyseddau meddygon ym maes diogelu ac o werthuso cofnodion arfarnu myfyriol.

# Sicrhau ansawdd diogelu



# Fframwaith Diogelu GIG Cymru

## Diogelu pobl drwy sicrwydd, atebolrwydd a dysgu

**Mae Fframwaith Diogelu GIG Cymru yn amlinellu'r dull o ddiogelu plant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n wynebu risg yn y system gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n egluro dull unedig, system gyfan o ddiogelu, sy'n sicrhau atebolrwydd, tryloywder, a gwelliant parhaus ar draws GIG Cymru.**

Gweledigaeth y Fframwaith yw cyflawni gwaith diogelu cyson o safon ar draws GIG Cymru, sy'n gwarchod ac yn hyrwyddo llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg; sy'n sicrhau atebolrwydd; ac sy'n gwella canlyniadau drwy ddysgu a chydweithio.

### Y cyd-destun

Mae'r broses o ddatblygu'r fframwaith yn deillio o ofynion a nodwyd yn yr 'Adolygiad Cryfhau Diogelu ym maes Iechyd', a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu effeithiolrwydd trefniadau diogelu ym maes iechyd yn 2024.

Mae Fframwaith Diogelu GIG Cymru yn cydgrynhoi'r Fframwaith Gwrando a Dysgu, y Fframwaith Ansawdd, Sicrwydd ac Atebolrwydd, a'r gofynion o ran Datganiad Ansawdd a Metrigau Diogelu, mewn un fframwaith cydlynol i greu system unedig i Gymru ar gyfer rheoli ansawdd diogelu.



### Y Fframwaith

Mae'r Fframwaith yn cynnwys y canlynol:

- Galluogwyr Diogelu sy'n cynnwys arweinyddiaeth, gweithlu a defnyddio dealltwriaeth data.
- Gofynion o ran Dysgu a Gwella, e.e. adborth, adolygiadau o ddigwyddiadau andwyol, arferion da, dysgu a arweinir gan leisiau, a dealltwriaeth strategol.
- Angenrheidiau Sicrwydd ac Atebolrwydd, megis cydweithio â threfniadau cenedlaethol a lleol ar gyfer diogelu a rheoli risg.
- Datganiad Ansawdd a Safonau Data ynghylch Diogelu.
- Metrigau manwl ac arweiniad ar gyfer adroddiadau ynghylch diogelu ac ynghylch cydymffurfio â hyfforddiant

### Gweithredu'n lleol a threfniadau adolygu

Cyfrifoldeb swyddogaeth Perfformiad a Gwella GIG Cymru fydd cyflawni gwaith ar lefel genedlaethol i fonitro a rhoi sicrwydd ar sail y Fframwaith Diogelu. Bydd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn gyfrifol am fonitro a rhoi sicrwydd ar lefel leol.

### Yn y dyfodol

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd gwaith yn canolbwyntio ar ymgorffori Fframwaith Diogelu GIG Cymru drwy'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraethiant, sicrwydd a dysgu. Bydd hynny'n hybu ymarfer diogelu cyson a gwelliant parhaus ar draws sefydliadau GIG Cymru, gyda goruchwyliaeth effeithiol o'r system.

# Datganiad Ansawdd a Metrigau Diogelu

**Mae datganiad ansawdd cenedlaethol a gytunwyd ynghylch diogelu, safonau ansawdd cysylltiedig, a chyfres wedi'i mireinio o fetrigau diogelu ar gyfer GIG Cymru wedi'u cwblhau.**

Mae'r gwaith hwn yn darparu sylfaen gryfach ar gyfer rhoi sicrwydd ynghylch diogelu ac ar gyfer cynllunio a gwella ar draws GIG Cymru ac mae'n hybu dull cydgysylltiedig a thryloyw, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o amddiffyn pobl a gwella canlyniadau.

## Y cyd-destun

Deilliodd y ffrwd waith hon o argymhellion *Adolygiad Cryfhau Diogelu ym maes Iechyd* 2024/25, a gomisiynwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru.

Mae'n adlewyrchu blaenoriaeth genedlaethol glir i wella cysondeb, atebolrwydd ac ansawdd mewn ymarfer diogelu ar draws holl sefydliadau GIG Cymru.

## Sut beth yw da

Mae'r Datganiad Ansawdd a'r Metrigau Diogelu yn diffinio diogelu da yn GIG Cymru, ac yn cynnig rhybuddion cynnar drwy waith monitro a gwerthuso parhaus.

Maent wedi'u datblygu drwy ymgysylltu ag arbenigwyr, ac maent yn cynnwys:

- Datganiad ansawdd cenedlaethol clir ynghylch diogelu
- Cyfres o safonau ansawdd ategol
- Set Ddata Ofynnol er mwyn cryfhau llywodraethiant, sicrwydd a thryloywder

## Wedi'u gyrru gan ddata

Mae'r Datganiad Ansawdd yn gosod diogelu fel un o elfennau craidd gofal o safon, sy'n rhoi pwys ar ymarfer diogel, effeithiol, prydlon a chyson a ategir gan lywodraethiant cadarn, data dibynadwy a gweithlu medrus.

Mae'r safonau cysylltiedig a'r Set Ddata Ofynnol yn darparu eglurder ynghylch disgwyliadau'n ymwneud â'r canlynol:

- Arweinyddiaeth ac atebolrwydd
- Cymhwysedd y gweithlu a chydymffurfio â hyfforddiant
- Systemau a phrosesau adrodd
- Gweithio mewn partneriaeth
- Ansawdd a chysondeb data.

Ar y cyd, byddant yn galluogi goruchwyliaeth, sicrwydd a'r gallu i gymharu ar lefel genedlaethol, a dysgu ar lefel y system gyfan.

## Y camau nesaf

Mae camau gweithredu yn y dyfodol yn cynnwys:

- egluro systemau cenedlaethol ar gyfer rhoi sicrwydd
- mynd i'r afael â heriau o ran adrodd, megis:
  - Y swm bach o ddata am ymarferwyr/y rhai hynny sydd mewn swyddi cyfrifol
  - Pennu rôl Modiwl Diogelu Datix Cymru yn y dyfodol ochr yn ochr â'r camau y mae awdurdodau lleol yn eu cymryd ar y cyd i ddatblygu Ffurflen Adrodd Integredig Cymru Gyfan.

## Effaith

Bydd effaith y gwaith hwn yn cael ei thracio drwy fonitro'r Set Ddata Ofynnol ynghylch diogelu'n rheolaidd ar lefel genedlaethol, a ategir gan waith adrodd a chymharu fel mater o drefn ar draws sefydliadau GIG Cymru. Bydd hynny'n helpu i adnabod tueddiadau, tynnu sylw at amrywiadau, ac amlygu meysydd ar gyfer gwella. At hynny, bydd cynnydd yn cael ei adolygu drwy weithgarwch archwilio a thrwy adborth gan ymarferwyr a phartneriaid, a fydd yn rhoi tystiolaeth o welliannau parhaus mewn ymarfer diogelu a chanlyniadau.

# Templed rhoi sicrwydd er mwyn hybu Dyletswydd Prevent



**Mae templed rhoi sicrwydd wedi'i ddatblygu er mwyn galluogi Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru i gofnodi gweithgarwch yn systematig a dangos tystiolaeth ohono'n unol â Dyletswydd Prevent (2023).**

Bydd y templed yn rhoi sicrwydd, mewn fframwaith llywodraethiant cadarn, ynghylch sut y mae pob sefydliad yn bodloni gofynion Dyletswydd Prevent. O'i gyfuno ag adroddiadau chwarterol am atgyfeiriadau, gweithgarwch sganio a hyfforddiant, bydd yn gwella dealltwriaeth genedlaethol o weithgarwch Prevent ym maes iechyd ac yn helpu i gryfhau'r ymateb diogelu cyffredinol.

## Y cyd-destun

Mae Dyletswydd Prevent yn mynnu bod awdurdodau penodol, gan gynnwys sefydliadau iechyd, yn rhoi sylw dyladwy i'r angen i atal pobl rhag troi'n derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth. Mae'n sicrhau bod modd adnabod a chynorthwyo unigolion sy'n agored i gael eu radicaleiddio, drwy gydweithio â phartneriaid yn rhan o gyfrifoldebau diogelu ehangach.

Mae hyfforddiant Prevent ac ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd yn cynorthwyo unigolion i adnabod arwyddion o radicaleiddio ac i sylwi, gwirio a rhannu pan fyddant yn gweld yr arwyddion hynny.

## Y templed

Mae'r templed rhoi sicrwydd blynyddol yn cofnodi'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant ac arweinyddiaeth mewn sefydliadau iechyd, ac yn dangos sut y caiff Prevent ei drafod, ei fonitro a'i alinio â phrosesau diogelu ehangach.

Mae'n galluogi sefydliadau i ddangos prosesau unigol ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau o faes iechyd i Prevent a chofnodi ceisiadau i sganio partneriaethau. Yn ogystal, ceir maes ar gyfer adrodd ynghylch sut y mae sefydliadau'n gweithio yn rhan o Banel Channel*. Mae'r templed yn cofnodi gwybodaeth benodol am hyfforddiant ymwybyddiaeth Prevent, sy'n berthnasol i bob aelod o staff, ochr yn ochr â hyfforddiant sydd wedi'i anelu at grwpiau o staff allweddol. O'i adolygu ochr yn ochr ag atgyfeiriadau a gweithgarwch sganio, gall amlygu meysydd lle gallai hyfforddiant ychwanegol neu hyfforddiant wedi'i dargedu fod yn ofynnol.

## Dadansoddi

Er bod nifer yr atgyfeiriadau gan sefydliadau iechyd unigol yn tueddu i fod yn fach, gall deall eu ffynhonnell a'r gwasanaethau dan sylw helpu i dargedu hyfforddiant yn fwy effeithiol a hybu dysgu ar draws sefydliadau. Mae data ynghylch yr unigolion a atgyfeiriwyd ond y barnwyd eu bod yn anaddas ar gyfer Prevent yr un mor werthfawr o safbwynt deall sut y gellir cryfhau llwybrau cymorth amgen.

## Y camau nesaf

Bydd y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn gweithio gyda sefydliadau iechyd i rannu'r templed a chynorthwyo i'w weithredu. Bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd bod llywodraethiant ar waith i fodloni gofynion Dyletswydd Prevent ac i adnabod unrhyw feysydd lle mae angen camau gweithredu pellach neu gymorth i godi ymwybyddiaeth. Yn y dyfodol, bydd y templed yn esblygu gydag amser ar sail adborth ac ar sail ei effeithiolrwydd.

*Mae Panel Channel yn rhaglen ddiogelu gyfrinachol, amlasiantaeth sy'n cynorthwyo unigolion sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Drwy weithio gyda'i gilydd, mae asiantaethau'n ystyried addasrwydd yr atgyfeiriadau a geir, mae'r rhesymau yn cael eu cofnodi a, lle bo'n briodol, mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn cael ei ailgyfeirio at asiantaeth neu lwybr diogelu mwy priodol i gael cymorth.

# Rhannu gwaith dysgu o adolygiadau

**Cynhaliodd y Rhwydwaith adolygiad o brosesau sefydliadol cyfredol y GIG ar gyfer rhannu gwaith dysgu am ddiogelu o adolygiadau, a lywiwyd gan egwyddorion gwerthuso prosesau.**

Mae dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig hanesyddol, ochr yn ochr â phroses newydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, yn parhau i amlygu themâu sy'n codi yn aml ar draws y sector iechyd ac asiantaethau partner.

## Y cyd-destun

Mae llawer o'r themâu dysgu a welir mewn Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yn rhai sy'n codi yn aml, ac ymddengys bod modd eu rhagweld a'u bod yn themâu nad ydynt yn newid. Maent yn cynnwys argymhellion sy'n benodol i'r sector iechyd. Mae hynny er gwaethaf ymdrechion sylweddol i sicrhau bod gwaith dysgu o adolygiadau'n cael ei rannu â phob maes ymarfer, bod cynlluniau gweithredu'n cael eu cwblhau, bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu a bod gwersi fel pe baent yn cael eu dysgu.

## Methodoleg a chanfyddiadau

Cafodd holiadur hunanadrodd ei ddefnyddio i adnabod y prosesau allweddol a gâi eu defnyddio i gyfleu canfyddiadau adolygiadau diogelu yn naw sefydliad GIG Cymru.

Roedd y canfyddiadau'n cynnwys y canlynol:

- Mae sefydliadau'n buddsoddi llawer o ymdrech mewn defnyddio gwaith dysgu o adolygiadau i lywio hyfforddiant ac ymarfer, ond mae sawl her yn golygu ei bod yn anodd gweithredu hynny'n effeithiol.
- Nid oes unrhyw sefydliad wedi sefydlu polisi ffurfiol ar gyfer rhannu'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau, sy'n arwain at ddulliau gweithredu anghyson ar draws Cymru.
- Er bod yna brosesau mewn sefydliadau i hybu'r gwaith o rannu'r gwersi a ddysgwyd, prin yw'r dystiolaeth o systemau sicrwydd dibynadwy i gadarnhau bod hynny'n digwydd yn effeithiol.
- Er bod camau'n cael eu cymryd i fonitro'r graddau y cydymffurfir â hyfforddiant, ni cheir unrhyw sicrwydd penodol bod gwaith dysgu o adolygiadau unigol yn cael ei ymgorffori'n gyson mewn rhaglenni hyfforddiant.

Mae'r canlyniadau yn awgrymu y dylai cam nesaf y gwaith hwn ganolbwyntio ar werthuso dulliau presennol a newydd o rannu gwaith dysgu o adolygiadau, gan roi pwys penodol ar ddulliau sy'n cyrraedd gweithwyr proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd yn effeithiol. Byddai hynny'n sefydlu gwaelodlin y gellir ei defnyddio i fesur effaith newidiadau yn y dyfodol ac effaith addasiadau a gaiff eu treialu.

## Y camau nesaf

Bydd y cam nesaf yn defnyddio methodoleg gwella ansawdd er mwyn adnabod, treialu a gwerthuso dulliau gweithredu sy'n gwella cyrhaeddiad ac effaith gwaith dysgu o adolygiadau. Bydd y Rhwydwaith yn gweithio gyda sefydliadau GIG Cymru i rannu arfer da presennol a chryfhau'r Fframwaith Dysgu, fel bod gwaith dysgu nid yn unig yn cael ei rannu ond ei fod hefyd yn cael ei ymgorffori, bod tystiolaeth ar gael ohono, a'i fod yn cael ei adolygu.





# Llais y Plentyn/Oedolyn sy'n Wynebu Risg

# Egwyddorion amddiffyn plant cenedlaethol

**Mae egwyddorion gweithredol ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant wedi'u datblygu er mwyn sefydlu safon gyson ar gyfer ymarfer diogelu cydgysylltiedig o safon ar draws gwasanaethau iechyd. Mae'r egwyddorion yn cyd-fynd ag ymrwymiadau diogelu a dyletswyddau statudol GIG Cymru, ac yn hybu ymarfer cyson ac atebol.**

## Cefndir

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol, rhaid i bob pryder am gamdriniaeth, esgeulustod a niwed sylweddol gael ei asesu'n llawn dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae tueddiadau diweddar yn dangos bod niferoedd cynyddol o blant ar Gynlluniau Amddiffyn Plant, a bod yna broblemau megis cofrestru mwy nag unwaith, cynllunio hirdymor aneffeithiol, a niwed sy'n parhau oherwydd ymyrraeth gyfyngedig.

Gall anghenion o ran iechyd fod ynghudd neu fod wedi'u diystyru, sy'n amlygu pwysigrwydd cymryd camau rhagweithiol i adnabod problemau iechyd newydd a deall effaith hirdymor Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae adolygiadau cenedlaethol hefyd yn amlygu bylchau sy'n cynnwys cynrychiolaeth gyfyngedig o'r sector iechyd mewn cynadleddau am blant oedran ysgol, diffyg ymgysylltu pan nad oes unrhyw bryderon am iechyd yn weladwy yn syth, cyfathrebu gwael rhwng gwasanaethau, absenoldeb llais y plentyn, ac adroddiadau nad ydynt yn cynnwys gwaith dadansoddi a chynllunio clir.

## Nodau

Mae'r egwyddorion hyn yn ceisio sicrhau bod GIG Cymru yn darparu mewnbwn prydlon ac effeithiol mewn cynadleddau, sy'n cryfhau ansawdd asesiad iechyd i blant a phobl ifanc.

Mae'r egwyddorion yn eiriol dros sicrhau cynrychiolaeth gan y gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc orau, pryd bynnag y bo modd. Bydd hynny'n cryfhau mewnbwn o'r sector gofal iechyd i Gynadleddau Amddiffyn Plant, sy'n ddiogel, yn effeithiol ac yn dosturiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Y camau nesaf

Roedd ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhoi cyfle cynnar i ddeall safbwyntiau gweithwyr proffesiynol a thimau allweddol ar draws GIG Cymru. Bydd y wybodaeth hon yn gwella ac yn hybu'r graddau y caiff yr egwyddorion eu rhoi ar waith.





# Arolwg o blant sy'n derbyn gofal – adolygu'r adborth

**Mae adolygiad o'r ymatebion a oedd yn yr adborth a gafwyd yn dilyn yr arolwg cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal, a gynhaliwyd yn 2025, wedi'i gwblhau.**

## Y cyd-destun

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod 7,198 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru ar 31 Mawrth 2024 (LLYW.CYMRU). Mae hynny'n pwysleisio pwysigrwydd parhaus asesiad iechyd cyson sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

## Yr arolwg

Cafodd arolwg cenedlaethol ei gynnal yn 2025 er mwyn casglu adborth gan blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr am asesiadau iechyd statudol. Nod yr arolwg oedd hybu'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio'n fwy helaeth ar yr unigolyn, drwy ddefnyddio adborth i ysgogi gwelliannau sy'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i blant a'u gofalwyr.

Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar werthoedd craidd megis urddas, parch a diogelwch. Roeddent hefyd yn archwilio a oedd plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn ymwneud â phenderfyniadau am eu hiechyd, a oeddent yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac a oedd gwybodaeth wedi'i rhannu â nhw mewn modd a oedd yn briodol i'w hoedran.

## Dadansoddi

Cafodd data'r arolwg ei ddadansoddi er mwyn adnabod themâu allweddol a fydd yn hybu gwella ansawdd ac a fydd yn cryfhau'r modd y caiff asesiadau iechyd statudol a gwasanaethau iechyd arbenigol eu darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Roedd y canfyddiadau cyffredinol yn gadarnhaol:**

- Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr fod gweithwyr proffesiynol yn cyfathrebu'n glir a bod ganddynt ffordd dosturiol o weithredu a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn. Roeddent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau.
- Soniodd gofalwyr am lefelau uchel iawn o fodlonrwydd â'r profiad cyffredinol.
- Nodwyd mai ymweliadau â'r cartref oedd orau o ran lleoliad, a'u bod yn cyfrannu i amgylchedd mwy agored a hamddenol.
- Nodwyd bod proffesiynoldeb, empathi ac ymroddiad staff, a gwerth parhad a gofal sy'n seiliedig ar gydberthnasau, yn bethau cadarnhaol.

**Cafodd meysydd ar gyfer gwella eu nodi ar lefel ymarferwyr, lefel Byrddau Iechyd a lefel genedlaethol:**

- Nid oedd rhai plant yn deall diben eu hasesiad iechyd, nid oeddent yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, neu nid oeddent yn cael cyfleoedd i rannu pryderon.
- Roedd y problemau hynny'n gysylltiedig ag ansicrwydd ynghylch rôl y gweithiwr proffesiynol.
- Roedd sawl plentyn yn anfodlon â lleoliadau mewn clinigau neu ysgolion, ac nid oedd rhai'n cael amser preifat gyda gweithiwr iechyd proffesiynol.
- Roedd adborth negyddol yn sôn am rwystrau ymarferol, e.e. parcio, problemau preifatrwydd, a'r angen am asesiadau hyblyg sydd wedi'u teilwra yn fwy helaeth, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.

## Crynodeb

Mae'r arolwg yn dangos bod asesiadau iechyd statudol yn bethau cadarnhaol ar y cyfan, ond mae'n nodi'r angen i wella cysondeb, cyfathrebu, a gofal sydd wedi'i bersonoli. Bydd gwella'r meysydd hyn, yn ogystal â chynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn yr arolwg a gwella'r data a gaiff ei gasglu, yn helpu i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal yn parhau i ddylanwadu ar y modd y caiff gwasanaethau eu datblygu ar bob lefel.

## Y camau nesaf

- Bydd ymarferwyr yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd cyflwyno pobl ac o'r angen i deilwra dulliau asesu fel y bo angen.
- Bydd Byrddau Iechyd yn adolygu eu prosesau ar gyfer asesiadau iechyd er mwyn sicrhau bod plant a gofalwyr yn cael eu gweld yn y lleoliadau mwyaf priodol. At hynny, dylai Byrddau Iechyd sicrhau parhad o ran y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud ag iechyd plant sy'n derbyn gofal, pryd bynnag y bo'n bosibl.
- Bydd y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn ystyried creu adnodd rhagarweiniol cenedlaethol ar gyfer plant sy'n dechrau derbyn gofal, a fydd yn egluro diben asesiadau iechyd statudol a rôl gwasanaethau iechyd arbenigol i blant sy'n derbyn gofal.

## Feedback from children

**"X was nice and she treated me like I was 10 and yeah so X is good dont fire her."**

**"She was kind and helpful. she listened to me when I needed to speak to her. she didn't interrupt me or talk over me. In my opinion o thought she was very kind and caring overall."**

**"X is always professional and arrives with a smile on her face."**

## Feedback from carers

**"the LAC Health nurse was very friendly and was genuinely interested in the Child in my care."**

**"The nurse used professional and sensitive approach."**

**"the nurse was really kind and lovely. She didn't rush us and I could tell she was really interested in what I had to say."**



# Asesu a Chwilfrydedd Proffesiynol

## Holiadur Risg sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

**Mae ymarfer cwmpasu wedi'i gynnal er mwyn nodi'r gofynion ar gyfer comisiynu diweddariad i'r Holiadur Risg sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.**

Bydd y canfyddiadau'n llywio gofynion comisiynu, yn cryfhau cydweithio amlasiantaeth, yn diffinio safonau ansawdd, yn sicrhau alinio â dysgu'n dilyn yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac yn ymgorffori lleisiau pobl ifanc.

### Y cyd-destun

Mae'r Holiadur Risg sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a ddatblygwyd yn 2015, yn parhau i gael ei ddefnyddio'n eang ar draws GIG Cymru er mwyn helpu i adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Arweiniodd camau i'w integreiddio yng Nghofnod Gofal Nyrsio Cymru yn 2024 at adolygu ei berthnasedd, yn enwedig o ran niwed ar-lein, iaith briodol, ac alinio â pholisi diogelu cyfredol. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi natur ymarferol yr adnodd, a'i allu i gefnogi sgyrsiau sensitif, a ategir gan arweiniad a ddiweddarwyd a fideo hyfforddi newydd. Mae yna fylchau o hyd, fodd bynnag, sy'n cynnwys geiriad sydd wedi dyddio, data cyfyngedig ynghylch sut y caiff yr adnodd ei ddefnyddio, a diffyg ymgynghori â phobl ifanc yn ddiweddar ynghylch rhwystrau i ddatgelu.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Tynnodd sesiwn i randdeiliaid ym mis Gorffennaf 2025 sylw at yr angen i ddeall yn well sut y caiff yr Holiadur Risg ei ddefnyddio ar draws Cymru, ac at yr angen am dystiolaeth gryfach i lywio gwaith comisiynu yn y dyfodol. At hynny, nododd rhanddeiliaid y gallai datblygiadau cenedlaethol – megis strategaeth 10 mlynedd newydd Llywodraeth Cymru ynghylch cam-drin plant yn rhywiol, a gwaith Barnardo's ar ddangosyddion amlasiantaeth – newid

disgwyliadau ar gyfer adnoddau asesu'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, a'i bod yn hanfodol felly bod unrhyw waith i ddiwygio'r Holiadur Risg yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r datblygiadau hynny.

## Dadansoddi

Casgliad y dadansoddiad cwmpasu oedd mai'r Holiadur Risg hwn yw'r unig adnodd o hyd sydd wedi ennill ei blwyf, sydd wedi'i seilio ar ymchwil ac sy'n cael ei ddefnyddio'n eang yn GIG Cymru ar gyfer asesu achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ond bod angen iddo gael ei adolygu a'i foderneiddio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol.

Mae camau paratoi allweddol yn cynnwys:

- Cynnal archwiliad Cymru gyfan o'r defnydd a wneir o'r Holiadur Risg, gan gynnwys patrymau lleoliadau, rolau gweithwyr proffesiynol, a chysylltiadau â llwybrau atgyfeirio.
- Ymgysylltu'n ansoddol ag ymarferwyr, ac ymgynghori'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc.
- Parhau i fonitro datblygiadau o ran y strategaeth genedlaethol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ac o ran adnoddau amlasiantaeth newydd.
- Diffinio gofynion comisiynu'n gynnar ar gyfer adnodd cyfoes sy'n ystyriol o drawma ac sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth.

## Yn y dyfodol

Mae'r gwaith hwn yn darparu'r sylfaen ar gyfer comisiynu Holiadur Risg wedi'i ddiweddaru, ac mae'n sicrhau y bydd fersiynau'r dyfodol yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol, yn adlewyrchu profiad go iawn ac yn parhau'n effeithiol mewn ymarfer diogelu modern.



# Arweiniad ynghylch defnyddio hebryngwyr

**Mae'r Rhwydwaith wedi diweddaru arweiniad ynghylch defnyddio hebryngwyr, ar gyfer ymarferwyr GIG Cymru.**

Mae'r arweiniad yn nodi Egwyddorion Ymarfer Gweithredol Da ar gyfer defnyddio hebryngwyr yn ystod archwiliadau, triniaethau ac ymchwiliadau o natur bersonol ar draws GIG Cymru. Ei brif ddiben yw sicrhau bod ymarfer yn ddiogel, yn urddasol, yn gyson ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a sicrhau ar yr un pryd bod trefniadau diogelu i gleifion a gwarchodaeth i ymarferwyr gofal iechyd yn cael eu cryfhau.

Mae'n sefydlu disgwyliad clir bod hebryngwr cymwys, ffurfiol yn cael ei gynnig yn weithredol ar gyfer pob triniaeth o natur bersonol, waeth beth fo'r lleoliad a'r pwysau gweithredol, ac mae'n alinio ymarfer â gofynion diogelu a deddfwriaeth Cymru.


## Cynnwys

Mae'r arweiniad yn ymdrin â'r canlynol:

- Diffiniadau a rôl yr hebryngwr
- Cynnig gweithredol, cydsynio a chyfathrebu
- Gwrthod hebryngwr a rheoli risg
- Diogelu a chwilfrydedd proffesiynol
- Rolau a chyfrifoldebau
- Grwpiau penodol o gleifion a lleoliadau
- Dogfennau, argyfwng a sicrwydd.

## Y camau nesaf

Mae'r arweiniad a ddiweddarwyd yn rhoi i ymarferwyr iechyd Egwyddorion Ymarfer Gweithredol Da sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth Cymru ac sy'n addas i sefydliadau eu rhannu â meysydd ymarfer.



# Dysgu ar gyfer Diogelu

**Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae'r Rhwydwaith wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ymarferwyr ddysgu ar gyfer diogelu.**

**Nod y digwyddiadau yw meithrin gwelliannau cydweithredol mewn arferion diogelu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gwella capasiti asiantaethau ar y cyd i amddiffyn pobl agored i niwed.**

# Lansio fideos senarios diogelu sy'n seiliedig ar ddrama

**Lansiodd y Rhwydwaith adnodd dysgu newydd pwerus y bwriedir iddo hybu dysgu myfyriol, effeithiol dros ben ym maes diogelu ar draws asiantaethau yng Nghymru.**

Cafodd yr adnoddau eu lansio mewn digwyddiad Hyfforddi'r Hyfforddwr yng Nghaerdydd, a wnaeth dywys gweithwyr proffesiynol drwy'r ddarpariaeth a'u cynorthwyo i ymgorffori dysgu ar gyfer diogelu yn eu timau a'u sefydliadau eu hunain.




## Ynglŷn â'r adnoddau

Mae portffolio o senarios fideo sy'n seiliedig ar ddrama, a gynhyrchwyd gan yr arbenigwyr ar hyfforddiant *AftaThought*, yn archwilio themâu allweddol sy'n ymwneud â chwilfrydedd proffesiynol, rheoli datgeliadau, trafodaethau am strategaethau, galluedd meddyliol, ymosodiad ar gartref, esgus cydymffurfio, a chlywed llais teuluoedd a gofalwyr. Mae Pecyn Hyfforddiant Diogelu yn cyd-fynd â'r senarios er mwyn ymgorffori dysgu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws gwasanaethau.

Bwriedir iddynt gael eu haddasu a'u defnyddio ar draws GIG Cymru ac asiantaethau partner ehangach.

Mae'r deunyddiau yn addas ar gyfer y canlynol:

- Hyfforddwyr ac arweinwyr diogelu mewn sefydliadau iechyd a gofal
- Gweithwyr proffesiynol sy'n cyflwyno hyfforddiant mewnol ynghylch diogelu
- Ymarferwyr amlasiantaeth sy'n ceisio dealltwriaeth gyffredin ac ymarfer cyson.

## Beth sy'n cael sylw – a pham nawr?

Mae'r senarios fideo yn canolbwyntio ar ddwy flaenoriaeth ddiogelu hollbwysig:

- **Chwilfrydedd proffesiynol** – Mae'n annog ymarferwyr i archwilio y tu hwnt i'r hyn sydd ar yr wyneb, herio rhagdybiaethau, a sylwi "pan nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn".
- **Llais yr oedolyn sy'n wynebu risg** – Mae'n pwysleisio pwysigrwydd gwrando o ddifrif ar oedolion sy'n wynebu risg a deall yr oedolion hynny – nid yn unig clywed eu geiriau ond dehongli eu hymddygiad, y cyd-destun a'u profiad go iawn.

Mae'r themâu hyn yn amserol ac yn berthnasol, o gofio canfyddiadau sy'n codi'n aml yn dilyn adolygiadau ac archwiliadau ac sydd wedi amlygu cyfleoedd a gollwyd i ymyrryd yn gynharach, oherwydd diffyg chwilfrydedd neu oherwydd methiant i glywed llais yr oedolyn.

Gallwch gael gafael ar yr adnoddau yma

"Fideos gwych, llawn cynildeb, a oedd wir yn ysgogi trafodaeth â'r sawl a oedd o gwmpas y bwrdd."

"Bydd y senarios hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'n rhaglen hyfforddiant ynghylch diogelu."

# Cynhadledd 'Ymddiriedaeth i Ddiogelu'

**Bu 'Ymddiriedaeth i Ddiogelu' yn canolbwyntio ar reoli honiadau am ddiogelu yn erbyn ymarferwyr/y rhai hynny sydd mewn swyddi cyfrifol (gweler yr adran gynharach am Arweiniad GIG Cymru).**

Nod y gynhadledd undydd, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2026, oedd cynorthwyo cynrychiolwyr amlasiantaeth i weithredu Adran 5 - Arweiniad ynghylch rheoli honiadau yn erbyn gweithwyr GIG Cymru – Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Manteisiodd gweithdai'r digwyddiad ar yr hyn a ddysgwyd yn dilyn adolygiadau diogelu diweddar a oedd â phroffil uchel, ac fe'i gwnaethant yn bosibl i ymarferwyr ymwneud â datblygu dull cyson, teg a chymesur o asesu risg, a sicrhau ansawdd atgyfeiriadau a gyflwynir i awdurdodau lleol. Yn ogystal, bu'r gynhadledd yn ystyried cyflogaeth ddiogel a llesiant staff fel elfennau hanfodol drwy gydol proses Adran 5.

## Dysgu gyda'n gilydd

Bu arbenigwyr diogelu'n rhannu gwaith dysgu cenedlaethol, dealltwriaeth seicolegol a phrofiad ymarferol.

Yna, bu partneriaid amlasiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd i archwilio'r meysydd canlynol er mwyn llunio'r arweiniad terfynol:

- Sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng dyletswyddau diogelu, cyfrifoldebau cyflogi a thriniaeth deg
- Sut y gall pobl sy'n cam-drin neu'n grŵmio pobl eraill neu sy'n camfanteisio arnynt weithredu'n effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus a swyddi cyfrifol gan guddio'n aml, yng ngŵydd pawb, yr hyn y maent yn ei wneud
- Sut beth yw asesiad risg da tra bydd honiadau'n cael eu hystyried
- Beth yw'r ffordd orau o gefnogi staff heb beryglu diogelwch
- Sut y gall GIG Cymru wella cysondeb, sicrwydd a dysgu ynghylch rheoli honiadau.



### Yn y dyfodol

Yn dilyn cwblhau fersiwn terfynol yr arweiniad ynghylch Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, bydd y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn mynd ati i gyhoeddi arweiniad cenedlaethol ynghylch rheoli honiadau yn GIG Cymru.

**"Dealltwriaeth a safbwyntiau gwirioneddol ymarferol i lywio penderfyniadau am achosion sy'n ymwneud â phobl sydd mewn swyddi cyfrifol."**

**"Cyfle gwych i rwydweithio ac i ddysgu beth y mae asiantaethau eraill yn ei wneud."**

# Digwyddiad Bord Gron ynghylch Cryfhau Diogelu Oedolion



**Cafodd Digwyddiad Bord Gron ynghylch Cryfhau Diogelu Oedolion – Ymdrin ag Anafiadau Corfforol ei gynnal yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2026. Cafodd y digwyddiad ei gynnal gan y Gyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol a'i gefnogi gan y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol.**

Daeth y digwyddiad â gweithwyr proffesiynol ynghyd i archwilio'r modd y caiff oedolion sy'n wynebu risg eu hamddiffyn pan fyddant yn cael eu gweld gydag anafiadau a allai fod yn arwyddion o gamdriniaeth gorfforol.

## Gweithgarwch

Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau a oedd yn archwilio a oes angen newid, a oedd yn tynnu sylw at ymarfer cyfredol yn y DU ac yn ystyried dulliau posibl o ddiogelu oedolion yn y dyfodol. Tynnodd trafodaethau sylw at bwysigrwydd creu sylfaen dystiolaeth gadarn, a buont yn ystyried y manteision i glinigwyr, cleifion a gwasanaethau ar draws Cymru.

Drwy grwpiau bach rhyngweithiol, bu'r sawl a oedd yn bresennol yn archwilio dulliau posibl o wella ymarfer yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- cryfhau sgiliau clinigwyr i asesu anafiadau
- yr angen am sylfaen dystiolaeth well i ymarferwyr
- casglu astudiaethau achos o bob cwr o Gymru er mwyn nodi ble y mae prosesau presennol naill ai wedi cynorthwyo oedolion neu wedi'u siomi
- datblygu iaith gyffredin ar draws Cymru i ddisgrifio'r anafiadau y sylwir arnynt
- yr angen am Feddyg a Enwir ar gyfer diogelu oedolion mewn gwasanaethau iechyd.

## Yn y dyfodol

- Bydd y Gyfadran Meddygaeth Fforensig a Chyfreithiol yn symud y gwaith hwn yn ei flaen, a fydd yn cynnwys rhoi cyflwyniad i Gymdeithas Feddygol Prydain
- Bydd y sawl a oedd yn bresennol yn rhannu'r wybodaeth honno â'u Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ag asiantaethau eraill, gan dynnu sylw at yr annhegwch sydd mewn cymorth i oedolion agored i niwed, gan gynnwys potensial rolau megis Meddyg a Enwir ar gyfer diogelu oedolion sy'n wynebu risg
- Bydd arweinwyr meddygon teulu'n cyflwyno hyfforddiant ynghylch unrhyw anafiadau sydd gan oedolion agored i niwed, sy'n peri pryder.

**"Siaradwyr ysbrydoledig a thrafodaethau cadarnhaol."**

**"Roedd y trafodaethau wyneb yn wyneb yn teimlo'n werthfawr iawn."**

**"Syniadau gwerthfawr i symud y fenter yn ei blaen, y byddaf yn eu rhannu â fy nhîm."**



# Digwyddiad Dathlu Diogelu

## Cydnabod rhagoriaeth o ran diogelu ar draws GIG Cymru

**Cafodd Digwyddiad Dathlu Diogelu cyntaf erioed GIG Cymru ei gynnal ym mis Mawrth 2026 yng Nghastell Caerdydd. Roedd y digwyddiad yn cydnabod rhagoriaeth o ran diogelu ar draws timau ac unigolion ac yn amlygu'r gwaith ystyrlon ac effeithiol sy'n digwydd bob dydd ym mhob rhan o GIG Cymru.**

### Y cyd-destun

Mae diogelu'n faes ymarfer hanfodol a chymhleth sy'n aml yn anweledig. Mae cydweithwyr o bob proffesiwn, disgyblaeth a gwasanaeth yn gweithio i amddiffyn diogelwch, urddas a hawliau pobl – a hynny'n aml mewn amgylchiadau heriol a heb gydnabyddiaeth ffurfiol. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnig amser i oedi, myfyrio a dathlu'r cyfraniad hwnnw ac i gydnabod ymarfer diogelu sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.




### Enwebiadau



Cafodd pob grŵp, disgyblaeth a maes gwasanaeth proffesiynol eu hannog i gyflwyno enwebiadau – nid dim ond y sawl sydd mewn rolau diogelu dynodedig. Mae diogelu effeithiol yn gyfrifoldeb i bawb, ac mae yna lawer o enghreifftiau rhagorol i'w cael mewn gofal rheng flaen, arweinyddiaeth, addysg ac ymchwil ac ym maes gwella gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth.

Cafodd y ceisiadau eu hadolygu gan banel beirniadu a oedd yn cynnwys uwch-swyddogion ym maes diogelu, gan ddefnyddio meini prawf clir a chyson.

Agorodd Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y digwyddiad â phrif araith a oedd yn cydnabod y dewrder, y tosturi a'r ymrwymiad sy'n angenrheidiol i ddiogelu ein pobl fwyaf agored i niwed. Yna, yn ei sylwadau clo, diolchodd Claire Birchall, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, i holl enillwyr y gwobrau am eu cyfraniad ysbrydoledig a gwerthfawr i ddiogelu. Daeth y dathliadau i ben â datganiad cerddorol a the prynhawn yn y lleoliad yng Nghastell Caerdydd.

## Enillwyr y gwobrau

| Categori Gwobr | Enillydd | Sefydliad |
|---|---|---|
| Cyfraniad Oes i Ddiogelu | Linda Hughes-Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Gweithio mewn Partneriaeth ac mewn modd Amlasiantaeth | Michelle Chaplin | Heddlu Gwent |
| Gwella Gwasanaethau a Chanlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal | Sarah Pippen | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Seren Newydd ym maes Diogelu | Lucy Farthing<br>Gwenan Jones-Parry | Iechyd a Gofal Digidol Cymru<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Rhagoriaeth mewn Diogelu Rheng Flaen | Canolfan Ddiogelu Cyfannol, Yr Adran Achosion Brys | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Cryfhau Llais a Hawliau'r Plentyn/Oedolyn sy'n Wynebu Risg | Carol Jones<br>Michele Pengelley a Staff Ward y Llawr Cyntaf | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre |
| Arloesi, Gwella, Dysgu ac Ymchwil ym maes Diogelu | Katharine Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Arweinyddiaeth ym maes Diogelu | Claire O'Keefe | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |



**"Rwy'n gobeithio bod hwn yn ddechrau dathliad rheolaidd sy'n cydnabod y gwaith diogelu anhygoel a gaiff ei gyflawni mor aml yn dawel fach a heb gydnabyddiaeth. Mae creu cyfle i ddathlu'r gwaith hwn yn teimlo'n bwysig, ac rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf."**

Louise Mann, Cyfarwyddwr Diogelu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Ymarfer Rhanbarthol Arloesol

**Mae aelodau'r Rhwydwaith yn mynd ati'n rheolaidd i rannu ymarfer diogelu effeithiol er mwyn nodi beth sy'n gweithio yn eu hardal nhw, meithrin ymarfer effeithiol a chyfrannu at wella diogelu ar draws GIG Cymru.**

**Mae datblygiadau arloesol mewn sefydliadau ac ym maes ymarfer amlasiantaeth yn ystod y cyfnod diwethaf fel a ganlyn:**



# Datblygu ac ehangu Swyddogaeth Ddiogelu Datix

**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gwneud llawer i gryfhau ei ddefnydd o Swyddogaeth Ddiogelu Datix er mwyn hybu llywodraethiant effeithiol ym maes diogelu.**

## Y cyd-destun

Datix yw prif system y GIG ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau a rheoli risg, ac mae'n hybu diogelwch cleifion a dysgu sefydliadol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi bod yn defnyddio Datix ers i'r system gael ei chyflwyno yn 2016, a hynny i gofnodi pryderon am ddiogelu'n ymwneud ag oedolion sy'n wynebu risg, lle'r oedd honiadau am gamdriniaeth neu esgeulustod yn ymwneud â gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu neu a oedd wedi'u comisiynu gan y Bwrdd Iechyd. Roedd y system yn gyfyngedig ar y dechrau, ond gwnaeth ei mabwysiadu'n gynnar fel hyn sefydlu dull cyson, yr oedd modd ei archwilio, o adrodd am ddiogelu ac o gadw golwg ar ddiogelu.

Gwnaeth y system hi'n bosibl i echdynnu a dadansoddi data am ddiogelu ar lefel gwasanaethau ac ar lefel y sefydliad, a oedd o gymorth i adnabod tueddiadau, risgiau newydd a meysydd ar gyfer gwella. Gwnaeth lanlwytho dogfennau'n ddiogel i gofnodion unigol gryfhau ymhellach lywodraethiant gwybodaeth, cof sefydliadol, y gallu i archwilio, ac amddiffynadwyedd proffesiynol.

## Modiwl Diogelu

Cyflwynodd datblygiadau dilynol Fodiwl Diogelu pwrpasol, a wnaeth lawer i wella ymarferoldeb ac uchelgais. Gwnaeth hynny wella gallu'r Tîm Diogelu i gofnodi, cysylltu a goruchwylio ystod ehangach o weithgarwch diogelu ar draws y sefydliad a gydag asiantaethau partner.

## Casglu gwybodaeth

Erbyn hyn, mae'r modiwl yn crynhoi ystod eang o weithgarwch diogelu, sy'n cynnwys achosion Channel, Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, pryderon am ymarferwyr (mewnol ac allanol), Panelau Risg Uchel Amlasiantaeth, prosesau Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod, ymatebion cyflym i hunanladdiad tybiedig, achosion o Gaethwasiaeth Fodern, Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a chyngor a chymorth ynghylch diogelu. Mae'r ehangder hwn yn adlewyrchu'r dirwedd sy'n esblygu o ran diogelu, ac aeddfedrwydd cynyddol y sefydliad o ran llywodraethiant ym maes diogelu.

## Effaith

Mae cysylltu cofnodion â'i gilydd yn Datix wedi galluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gael darlun holistaidd o risg o ran diogelu dros gyfnod o amser, gan greu cysylltiadau rhwng pryderon, cyngor, digwyddiadau a chwynion sy'n perthyn i'w gilydd. Yn gyffredinol, mae Datix wedi esblygu o fod yn adnodd adrodd i fod yn system gadarn ar gyfer llywodraethiant ym maes diogelu, sy'n cynnig goruchwyliaeth, sicrwydd a chymorth gwell ar gyfer rheoli gweithgarwch diogelu cymhleth ac amlasiantaeth ar draws y sefydliad.

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

# Gwobr am Gryfhau Llais a Hawliau'r Plentyn / Oedolyn sy'n Wynebu Risg

**Yn Nigwyddiad Dathlu Diogelu GIG Cymru a gynhaliwyd yng Nghastell Caerdydd ym mis Mawrth 2026, enillodd tîm o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre y Wobr am Gryfhau Llais a Hawliau'r Plentyn / Oedolyn sy'n Wynebu Risg.**

Roedd y digwyddiad yn cydnabod rhagoriaeth o ran diogelu ar draws timau ac unigolion ac yn amlygu'r gwaith ystyrlon ac effeithiol sy'n digwydd bob dydd ym mhob rhan o GIG Cymru.

Cyflwynwyd y wobr i Michele Pengelly a staff ward y llawr cyntaf yn Ysbyty Felindre, ac mae'n cydnabod ymrwymiad eithriadol i sicrhau bod lleisiau plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu clywed a'u parchu ac y gweithredir ar eu sail.

## Dull amlasiantaeth, teulu cyfan o weithredu

Tynnodd yr enwebiad ar gyfer y wobr sylw at ofal eithriadol y tîm am deulu lle'r oedd unig riant y plant wedi cael prognosis marwol a lle nad oedd cymorth teulu ehangach ar gael.

Cydnabu'r staff y baich emosiynol a oedd ar y plant, gan roi blaenoriaeth i'w dymuniadau, eu gofidiau a'u gobeithion nhw. Drwy sgyrsiau sensitif, helpodd y tîm y teulu i deimlo'n ddigon diogel i ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol, gan gydgynhyrchu atgyfeiriad a oedd yn sicrhau bod llais y plant yn ganolog i benderfyniadau.

Arweiniodd hynny at ddull cydgysylltiedig, amlasiantaeth o weithredu a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac ymarferol. Drwyddi draw, bu Michele a staff ward y llawr cyntaf yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i ddileu rhwystrau yn hytrach na gorfodi atebion, a gwnaeth hynny hi'n bosibl i'r plant ymdopi â chyfnod anodd tu hwnt gydag urddas a sefydlogrwydd.

Diolch i'r dull tosturiol hwn o weithredu a oedd yn canolbwyntio ar y plant, parhaodd y plant i gael cymorth yn dilyn marwolaeth eu rhiant a bu modd iddynt gyflawni'r nodau a bennwyd ganddynt o'r cychwyn cyntaf.



Meddai Louise Mann, Cyfarwyddwr Diogelu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

**"Bu'r nyrs arbenigol Michele Pengelly a staff ward y llawr cyntaf yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cynorthwyo teulu ifanc a oedd yn wynebu diagnosis marwol, gan sicrhau bod y teulu'n ganolog i bob penderfyniad. Drwy gyfathrebu'n sensitif, darparu gofal tosturiol a gweithio mewn modd cydgysylltiedig ac amlasiantaeth, gwnaethant sicrhau bod dymuniadau a phryderon y plant yn llywio pob penderfyniad a chynllun – o gynnal eu cartref i gael mynediad i addysg a chymorth mewn profedigaeth."**

# Addewidion i blant sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal


**Yn 2025, llofnododd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys y Siarter Rhianta Corfforaethol, gan wneud ymrwymiad cyhoeddus clir i fod yn "rhieni corfforaethol" a chyflawni ar sail yr egwyddorion perthnasol a oedd wedi'u hegluro yn y Siarter.**

Cam nesaf Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw sicrhau bod ei rôl fel Rhiant Corfforaethol yn ymestyn o uwch-arweinwyr strategol i bob gweithiwr ar draws y Bwrdd Iechyd, a fydd yn eu galluogi i weithredu ar y cyd fel y byddai rhiant cyfrifol yn ei wneud ar gyfer ei blentyn ei hun.

Er mwyn hybu'r nod hwnnw, ac er mwyn cyflawni'r egwyddorion sydd yn y Siarter, mae'r sefydliad wedi datblygu 8 addewid i blant sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal, sy'n ymdrin â'r modd y byddant yn derbyn gofal.

Mae'r addewidion wedi'u seilio ar yr egwyddor dim byd amdanat ti, hebot ti, a byddant yn cael eu cyflawni gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addewidion Rhianta Corfforaethol.

## Dyma 8 addewid Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i blant sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal:





# Canolfan Rhithwir Iechyd Menywod

## Yr Adran Trais yn erbyn Menywod a Merched

**Mae Canolfan Rhithwir Iechyd Menywod Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dangos dull rhagweithiol y Bwrdd Iechyd o atal pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan sicrhau hefyd bod y sawl sydd wedi cael profiad o hynny'n cael eu hamddiffyn a'u cefnogi.**

Mae'r hyn sydd ar gael yn y Ganolfan am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ynghyd â'r adnoddau hyfforddiant cysylltiedig i staff iechyd, yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â dioddefwyr a goroeswyr sy'n aelodau o Banel Goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod bod dioddefwyr a goroeswyr yn arbenigwyr sydd â rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt llunio cynnwys y Ganolfan, ei dyluniad, a'i hadnoddau ategol.




Mae gweithdai wedi'u hwyluso yn cael eu cynnal ar hyn o bryd er mwyn crynhoi dealltwriaeth goroeswyr a sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd ag amcanion y Bwrdd Iechyd ar gyfer y Ganolfan, sef:

- Datblygu asedau cyhoeddus diddorol, hygyrch, dwyieithog sy'n ystyriol o drawma ar gyfer y Ganolfan Iechyd Menywod.
- Creu adnoddau hyfforddiant ategol ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, y gellir eu hintegreiddio mewn pecynnau hyfforddiant sy'n bodoli eisoes (e.e. vignettes achosion, naratif am brofiad go iawn, esboniadau byr wedi'u hanimeiddio).
- Sicrhau bod alinio'n digwydd â Chynllun Iechyd Menywod GIG Cymru a blaenoriaethau Asesiad o Anghenion Iechyd Menywod Powys, gan ganolbwyntio ar atal, sicrhau mynediad teg, a lleihau anghydraddoldebau ar draws cwrs bywyd.

**Gallwch gael mynediad i'r Ganolfan yma:**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Swansea Bay University Health Board

# Uned cymorth iechyd meddwl amenedigol

**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi sefydlu uned bwrpasol i gynorthwyo menywod sy'n profi anawsterau mawr o ran iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth eu plentyn.**

Uned Gobaith yw'r unig wasanaeth o'i fath yng Nghymru i gleifion mewnol, ac mae'n darparu gofal iechyd meddwl amlddisgyblaethol i fenywod rhwng wythnos rhif 32 eu beichiogrwydd a'r adeg y bydd eu babi yn un oed.

## Y cyd-destun

Yn flaenorol, roedd mamau yr oedd angen cymorth iechyd meddwl dwys arnynt naill ai'n cael gofal yn y gymuned, yn cael eu derbyn i wardiau iechyd meddwl acíwt heb eu babanod, neu'n gorfod teithio i unedau arbenigol ar gyfer mamau a babanod yn Lloegr.

## Yr uned

Mae'r uned yn cynnig chwe ystafell wely unigol i fenywod a'u babanod, ochr yn ochr a lolfa a chegin a rennir, ystafell chwarae, ystafell dawel, ac ystafell synhwyraidd. Mae llety ar gael hefyd ar gyfer aelodau'r teulu y mae angen iddynt deithio cryn bellter i ymweld â'u hanwyliaid.

Caiff gofal ei ddarparu gan dîm amlddisgyblaethol cynhwysfawr sy'n cynnwys seicolegwyr, nyrsys iechyd meddwl, seiciatryddion, gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, a bydwragedd. Mae nyrsys meithrin wrth law i gynorthwyo hefyd drwy ofalu am fabanod tra bydd y mamau'n gorffwys neu'n cael triniaeth.



Meddai Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar y pryd, adeg lansio'r uned:

**"Mae'n newyddion gwych bod gennym ein huned amenedigol ein hunain ar gyfer mamau a babanod yng Nghymru i gynorthwyo'r sawl sy'n profi anawsterau gyda'u hiechyd meddwl.**

**Bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i brofiad mamau newydd, oherwydd byddant yn gallu cael y cymorth arbenigol y mae ei angen arnyn nhw a'u babanod yn nes at adref. "**

UNED GOBAITH

# Arweinydd ar gyfer y Llys Gwarchod ac eiriolaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol

## Cynnal hawliau'r unigolyn

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe oedd y sefydliad cyntaf yn GIG Cymru i benodi Arweinydd pwrpasol ar gyfer y Llys Gwarchod a gwasanaethau eiriolaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol.**

Mae'r rôl ddeublyg unigryw hon yn cryfhau systemau ar gyfer rheoli achosion y Llys Gwarchod ac eiriolaeth y Ddeddf Galluedd Meddyliol, ac yn hybu penderfyniadau cyfreithlon a chyson sy'n seiliedig ar hawliau ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Arweinydd yn cadw golwg arbenigol ar y ddeddfwriaeth berthnasol ac yn cydweithio'n agos â'r Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Grwpiau Gwasanaeth, a gwasanaethau Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol. Mae'r cydweithredu hwn yn sicrhau bod dymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd pobl nad oes ganddynt alluedd yn cael eu deall yn llawn ac yn parhau'n ganolog i bob penderfyniad a wneir ar eu rhan. Caiff gwaith dysgu ac arfer gorau eu rhannu ar draws y sefydliad drwy Sesiynau Briffio 7 Munud, sy'n hybu datblygiad y staff ac yn gwella canlyniadau i gleifion.

Mae'r rôl yn rhoi pwys mawr ar gynnal hawliau dynol cleifion, yn enwedig os caiff penderfyniadau eu gwneud ar ran unigolion nad oes ganddynt alluedd. Mae'r Arweinydd hefyd yn ymgysylltu'n agos yn gyson â Rhwydwaith GIG Cymru o ran y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn rhannu arfer gorau a chynorthwyo i ddatblygu polisïau a phrosesau ymarferol, cadarn. Mae hynny'n galluogi staff ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i weithredu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gyson mewn ymarfer pob dydd.

Un Bae Ar y Cyd
One Bay Way



# Rheoli honiadau am ddiogelu mewn gwasanaethau ambiwlans

**Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae'r Tîm Diogelu yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r modd y caiff honiadau am ddiogelu eu nodi, eu hasesu a'u rheoli ar draws y sefydliad.**

Mae'r gwaith hwn yn dangos ymrwymiad cryf i amddiffyn cleifion, cefnogi staff a chynnal hyder y cyhoedd drwy ymarfer diogelu clir, cyson a thryloyw.

## Adolygiad cynhwysfawr

Mewn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol ar draws Cymru – a oedd yn cynnwys mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol, cryfhau gwaith recriwtio mwy diogel i swyddi cyfrifol, a hyrwyddo diwylliannau sefydliadol cadarnhaol – cynhaliodd y tîm adolygiad cynhwysfawr o'r modd y caiff honiadau am ddiogelu eu rheoli. Amlygodd hynny yr angen am arweiniad cliriach i helpu staff i adnabod pryd y gallai fod yn ofynnol ystyried pryderon yng nghyd-destun diogelu, yn enwedig pryderon am ymddygiad proffesiynol a diogelwch rhywiol.

## Prif welliannau

Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn, cafodd proses ddiogelu well ei datblygu a'i gweithredu. Yn ganolog i'r broses honno y mae Templed Asesu Risg Diogelu newydd a Rhestr Wirio Honiadau am Ddiogelu, sy'n rhoi fframwaith clir ac ymarferol i hybu penderfyniadau cyson a gwella dealltwriaeth o drothwyau diogelu.

Cafodd yr adnoddau eu llywio gan ddysgu cenedlaethol, archwiliadau mewnol o achosion, ac adborth gan gydweithwyr gweithredol, a wnaeth sicrhau eu bod yn ymarferol, eu bod wedi'u seilio ar dystiolaeth a'u bod yn cyd-fynd ag arfer gorau.

## Adborth cynnar ac effaith

Mae adborth cynnar yn awgrymu bod y broses newydd wedi cryfhau llywodraethiant drwy sicrhau bod pryderon am ddiogelu'n cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u huwchgyfeirio mewn modd strwythuredig y gellir ei archwilio. Mae'r staff yn sôn am fwy o hyder wrth adnabod pryderon am ddiogelu, yn enwedig mewn meysydd sensitif megis aflonyddu rhywiol a cham-drin domestig, yn ogystal â mwy o eglurder ynghylch pryd y mae ymddygiad yn cyfiawnhau gweithredu yng nghyd-destun diogelu.

Yn gyffredinol, mae'r dull newydd o weithredu o gymorth i adnabod risg yn gynharach, cynnal asesiadau mwy trylwyr a gwneud penderfyniadau tryloyw a phrydlon. Mae wedi lleihau ansicrwydd i reolwyr, wedi hyrwyddo barn broffesiynol a rennir ac wedi ymgorffori diwylliant diogelu mwy rhagweithiol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae hynny'n atgyfnerthu safonau proffesiynol, yn cefnogi her ac atebolrwydd, ac yn cyfrannu i'r agenda ddiogelu ehangach yng Nghymru.



# Gwasanaeth eirioli deublyg ar gyfer trais domestig a thrais rhywiol

**Gyda chymorth cyllid Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi sefydlu gwasanaeth sy'n cyflawni rôl ddeublyg, sef rôl Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol a rôl Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol.**

## Y cyd-destun strategol

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Cynllun Iechyd Menywod a'r Strategaeth Diogelwch Rhywiol ac mae'n darparu tystiolaeth glir o gyflawni ar sail y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ar sail ffrydiau gwaith y Glasbrint cenedlaethol.

## Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm o dri eiriolwr, ac mae pob un yn gweithio yn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth y Bwrdd Iechyd. Maent yn darparu cyngor amserol a chymorth arbenigol i gleifion a staff y mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt.

Mae'r model arloesol hwn yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i atal, gweithio mewn partneriaeth, a mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiogelu ac o ddiogelu'r cyhoedd.

## Effaith

Nod y gwasanaeth yw gwella mynediad i eiriolaeth arbenigol mewn lleoliadau gofal iechyd, hybu ymyrryd yn gynnar, a chryfhau gofal sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei werthuso gan ddefnyddio Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion a Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion, sy'n hybu gwelliant parhaus ac yn dangos cyfraniad y gwasanaeth i fywydau iachach a mwy diogel.





# Ffurflen asesu ddigidol ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol

**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cyflwyno ffurflen ddigidol ar gyfer asesu galluedd dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, er mwyn hybu ymarfer cyson sy'n cydymffurfio â chyfraith achosion sy'n esblygu.**

## Y cyd-destun

Rhaid i gydsyniad dilys ar gyfer ymyriad gofal iechyd gael ei roi'n rhydd ac yn wirfoddol, heb orfodaeth, a gan unigolyn sydd â'r wybodaeth briodol a'r galluedd meddyliol i gydsynio i'r driniaeth neu'r ymyriad penodol a gynigir.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu fframwaith cyfreithiol i gynorthwyo unigolion 16 oed a hŷn a allai fod yn ei chael yn anodd gwneud penderfyniadau. Rhaid bod asesiadau o alluedd yn ymwneud â'r penderfyniad penodol a wneir, a rhaid iddynt ystyried dymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn a dangos tystiolaeth ohonynt. Wrth asesu galluedd, rhaid i ymarferwyr ganolbwyntio ar "fater" penodol y penderfyniad, fel sy'n ofynnol gan gyfraith achosion.

## Y ffurflen

Mae'r ffurflen yn darparu arweiniad strwythuredig i ymarferwyr a digon o le i ddangos sut y mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi'i rhoi ar waith yn ymarferol, sy'n sicrhau bod yr unigolyn yn parhau'n ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'r dull hwn o weithredu o gymorth i gydymffurfio â'r Ddeddf, ac mae'n rhoi gwarchodaeth statudol i weithwyr iechyd proffesiynol.

## Manteision

Drwy ymgorffori dull o gydsynio ac o asesu galluedd, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n gadarn o safbwynt y gyfraith, mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ymarfer, yn lleihau'r risg o gael cwynion, ac yn lliniaru effaith bosibl ar ei sefyllfa ariannol a'i enw da.

At hynny, mae'r dull hwn o weithredu'n dangos ymrwymiad parhaus i ofal tryloyw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Gweithredu dysgu yn dilyn adolygiadau diogelu

**Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae Tîm Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithredu'r dysgu a oedd yn deillio o'r adolygiadau diogelu canlynol.**

## "Cyfiawnder trwy ein Dewrder"

Cafodd Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru yng nghyswllt cyn-Bennaeth.

Roedd yn adolygiad cymhleth a dyrys a fu'n ystyried y gweithgarwch amlasiantaeth a oedd yn ymwneud ag wyth o blant a oedd wedi dioddef/goroesi camdriniaeth rywiol a phedwar o blant a oedd wedi dioddef/goroesi prosesau cyfyngol ac ataliaeth.

Nododd yr adolygiad fod 52 o gyfleoedd wedi'u colli. Er bod y canfyddiadau wedi'u cyflwyno drwy themâu a oedd yn ymwneud â chamdriniaeth mewn ysgol, mae'r argymhellion yn rhai trawsbynciol ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella ar lefel leol a chenedlaethol. Bwriedir iddynt fod yn argymhellion ymarferol y gellir eu cyflawni, er y bydd rhai ohonynt efallai'n gofyn am newidiadau i arweiniad cenedlaethol ynghylch diogelu ac ynghylch llywodraethiant ysgolion.

BIPBC diogelu pobl sydd mewn perygl o niwed safeguarding people at risk of harm BCUHB

Gwnaeth yr adolygiad ddau argymhelliad uniongyrchol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

**a) Rhannu data**

Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried rhannu data CAMHS wedi'i anonymeiddio ag awdurdodau lleol er mwyn nodi mannau â galw uchel a phryderon thematig.

**b) Sicrwydd o ran diogelu**

Dylai'r Bwrdd Iechyd roi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn ceisio cyngor am ddiogelu pan fo plentyn yn cyrraedd apwyntiad gydag oedolyn heb ganiatâd rhiant.

Drwy ddull strwythuredig a chydweithredol o weithredu, yn unol â threfniadau goruchwylio a monitro Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu a monitro'r modd y caiff yr argymhellion eu gweithredu a'r graddau y cydymffurfir â gwaith archwilio.

# Trawma i'r pen oherwydd camdriniaeth

**Yn dilyn argymhellion Adolygiadau Ymarfer Plant, lansiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 'ICON', sef menter i atal trawma i'r pen oherwydd camdriniaeth ymhlith babanod a phlant. Gall trawma i'r pen oherwydd camdriniaeth achosi cyflyrau niwrolegol gydol oes, a dyma achos mwyaf cyffredin marwolaeth oherwydd cam-drin plant yn y DU.**

Mae'r rhaglen yn helpu mamau, tadau a gofalwyr eraill i ddeall patrymau crïo normal babanod newydd-anedig, ac mae'n annog teuluoedd i ddefnyddio dulliau cysuro syml. Mae'n egluro ei bod yn dderbyniol gadael babi yn rhywle diogel a cherdded i ffwrdd am ychydig funudau os yw'r crïo'n mynd yn ormod. Mae hefyd yn annog rhieni a gofalwyr i beidio byth ag ysgwyd babi – waeth beth fo maint eu straen neu'u rhwystredigaeth.

Ers mis Tachwedd 2025, mae pob rhiant/gofalwr babi a ryddheir o leoliadau mamolaeth a lleoliadau newyddenedigol sy'n lleoliadau i gleifion mewnol, a lleoliadau geni yn y cartref, yn cael neges ICON drwy fannau cyswllt craidd.

Y Bwrdd Iechyd hwn yw'r un cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu ICON, ac mae wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr y rhaglen i sicrhau bod deunyddiau cymorth Cymraeg ar gael i rieni a gofalwyr am y tro cyntaf. Caiff y rhaglen ei hariannu a'i chefnogi gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, a bydd ymyriadau amlasiantaeth yn cael eu rhoi ar waith yn ystod cam 2.



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cardiff and Vale University Health Board

# Prosiect Sgrinio Alcohol

**Mae'r Prosiect Peilot Sgrinio Alcohol yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn ychwanegiad newydd hanfodol i ofal rheng flaen yr ysbyty, a chaiff ei weithredu mewn partneriaeth agos â Thîm Diogelu Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.**

Mae'r cydweithredu hwn yn sicrhau bod pob claf a gaiff ei adnabod drwy sgrinio'n cael cymorth gan rwyd achub o arbenigwyr, y mae pob un ohonynt yn gweithio mewn canolfan ragoriaeth o ran diogelu a gydnabyddir yn genedlaethol.

## Cryfhau cymorth presennol

Drwy integreiddio sgrinio alcohol yn yr Uned Achosion Brys, mae'r prosiect yn cryfhau'r cymorth arbenigol a gynigir eisoes drwy Ganolfan Ddiogelu yr Adran Achosion Brys. Mae'r ganolfan hon – a enillodd Wobr am Ragoriaeth ym maes Diogelu yn ddiweddar yng Ngwobrau Cydnabyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru – yn bwynt canolog ar gyfer ymyriadau amlasiantaeth, sy'n ei gwneud yn bosibl cyflwyno ymatebion yn syth ac mewn modd holistaidd ar gyfer cleifion agored i niwed.

## Effaith

- **Diogelu Integredig:** mae'r prosiect yn sicrhau bod risgiau'n ymwneud ag alcohol yn cael eu hadnabod a'u rheoli gyda'r un trylwyredd â phryderon statudol eraill am ddiogelu.
- **Rhwydwaith Cymorth Gwell:** Mae'r sgrinio yn ychwanegu haen ragweithiol at wasanaethau presennol y Ganolfan (megis cymorth o ran cam-drin domestig ac iechyd meddwl) drwy adnabod defnydd peryglus o alcohol yn gynnar a chysylltu cleifion yn uniongyrchol ag arbenigwyr megis Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro.
- **Model Caerdydd ar Waith:** Drwy gyfuno sgrinio fel mater o drefn â chydarbenigedd y Ganolfan, nod y prosiect yw lleihau niwed yn ymwneud ag alcohol ac atal pobl rhag mynd i'r ysbyty dro ar ôl tro.
- **Amgylchedd Arobryn:** Mae gwaith cyflawni gan Ganolfan Ddiogelu yr Adran Achosion Brys yn sicrhau bod y prosiect yn gweithredu mewn lleoliad sicr, llwyddiannus a gydnabyddir am ei ragoriaeth ym maes cydweithredu amlasiantaeth ac ym maes amddiffyn cleifion.

# Prosiect Peilot 'O Dan y Trothwy' Prevent

**Mae Tîm Diogelu Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Gwasanaethau Plant Caerdydd wedi bod yn bartneriaid hanfodol ym mhrosiect peilot "O Dan y Trothwy" y Swyddfa Gartref dan y rhaglen Prevent.**

Mae'r prosiect peilot yn cyd-fynd â blaenoriaeth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, sef ymyrryd yn gynnar ac atal pryderon lefel is rhag troi'n risgiau mwy difrifol.

## Dyletswydd Prevent

Mae dyletswydd Prevent yn ofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cymryd camau i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, drwy adnabod yn gynnar y sawl sy'n wynebu risg a thrwy ddarparu cymorth o ran diogelu.

## Y fenter

Bwriad penodol y fenter genedlaethol hon oedd mynd i'r afael â'r diffyg eglurder sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau, lle nad yw unigolyn yn cyrraedd y trothwy statudol uchel ar gyfer ymyriadau Channel ond lle mae'n dal i arddangos elfennau pwysig o fod yn agored i niwed, sy'n gofyn am gymorth amlasiantaeth.

Er mwyn hwyluso'r prosiect peilot, sefydlodd Caerdydd Banel "O Dan y Trothwy" i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd y tu allan i brosesau gwrthderfysgaeth ffurfiol yn dal i gael goruchwyliaeth a chymorth o ran diogelu.

## Fframwaith cydweithredol

- **Gwasanaethau Plant Caerdydd:** yn cydlynu atgyfeiriadau Prevent ac yn sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael sylw mewn prosesau diogelu ehangach ym maes gofal cymdeithasol.
- **Tîm Diogelu Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:** yn cyfrannu arbenigedd clinigol, ac yn sicrhau bod elfennau bod yn agored i niwed, megis iechyd meddwl, trawma neu niwroamrywiaeth, yn cael sylw drwy lwybrau iechyd priodol.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gwella arweinyddiaeth ym maes diogelu ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Yn ystod y cyfnod yr adroddir yn ei gylch, gwelodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnydd nodedig yn nifer y ceisiadau am gyngor a chymorth o ran diogelu a oedd yn ymwneud â gweithwyr.**

Er i'r materion hynny gael eu rheoli'n fewnol, mae'r tuedd yn awgrymu ymwybyddiaeth sefydliadol gynyddol o ddiogelu fel cyfrifoldeb craidd. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth dosturiol, hyderus er mwyn cefnogi staff drwy sefyllfaoedd cymhleth sy'n heriol yn emosiynol.

## Adborth

Cafwyd sawl achos lle'r ymgysylltodd aelodau o staff yn uniongyrchol â'r tîm diogelu i ofyn am gyngor, sicrwydd, a chymorth proffesiynol. Tynnodd adborth gan gydweithiwr a oedd yn ymddeol sylw at hygyrchedd cyson y tîm ac at werth yr arweiniad adeiladol a ddarperir mewn amgylchiadau heriol.

Mae'r adborth hwn yn dangos rôl bwysig arweinyddiaeth ym maes diogelu, o safbwynt hybu diogelu'r cyhoedd a hybu llesiant y gweithlu.

## Ymarfer myfyriol

Mae'r tîm diogelu wedi cryfhau ymarfer myfyriol ymhellach ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn dilyn digwyddiad heriol, cafodd y staff gynnig sesiynau myfyrio strwythuredig er mwyn adolygu'r sefyllfa, nodi'r hyn a ddysgwyd, a llywio gwelliannau i brosesau sefydliadol.

Tynnodd adborth gan y cyfranogwyr sylw at werth cael cymorth i fyfyrio ac i gyfrannu at wella gwasanaethau. Mae'r dull hwn o weithredu wedi atgyfnerthu diwylliant o fod yn agored, dysgu, a gwella'n barhaus.

## Gwella gwasanaethau

Mae myfyrdodau gan uwch-gydweithwyr wedi tynnu sylw at effaith niwed i staff ac at fanteision ymgysylltu'n gynharach â chymorth o ran diogelu. Mae hynny wedi atgyfnerthu'r angen i gydnabod bod diogelu'n rhan annatod o lesiant staff, yn hytrach na'i fod yn ddim byd mwy na swyddogaeth gyhoeddus.

Mewn ymateb i hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cryfhau ymwybyddiaeth sefydliadol, yn gwella ymgysylltu gan yr arweinyddiaeth, ac yn ymgorffori diogelu ymhellach mewn fframweithiau llesiant. Mae hynny'n golygu cefnu ar ddull gweithredu a oedd yn seiliedig ar gydymffurfio, a symud tuag at ddiwylliant sefydliadol sy'n fwy tosturiol a chefnogol.

Yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth sefydliadol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i gryfhau ei gyfrifoldebau statudol a'i gyfrifoldebau o ran diogelu er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cyflawni rolau'n ymwneud â grwpiau agored i niwed yn cael eu fetio'n briodol. Mae polisi wedi'i weithredu o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n cyflwyno rheidrwydd i ddefnyddio Gwasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac sy'n rhoi mwy o eglurder am gyfrifoldebau rheolwyr a staff.

# Gweithredu Modiwl Diogelu Datix

**Ym mis Ebrill 2025, arweiniodd Tîm Diogelu Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y gwaith o weithredu system ddigidol newydd er mwyn tracio pob achos o ddiogelu plant, pob achos o ddiogelu oedolion, a phob achos sy'n ymwneud â phobl sydd mewn swyddi cyfrifol.**

Cafodd y system ei chyflwyno er mwyn sicrhau bod pob achos o ddiogelu'n cael ei gofnodi ar un system ac er mwyn ei gwneud yn bosibl cysylltu achosion â'i gilydd, os oeddent yn ymwneud â mwy nag un aelod o'r un teulu.

## Y cyd-destun

Cyn i'r system gael ei chyflwyno, roedd yna systemau cofnodi ar wahân ar waith ar gyfer diogelu plant, diogelu oedolion, a phobl sydd mewn swyddi cyfrifol. Nid oedd hynny'n rhoi cyfle i gynhyrchu adroddiadau'n awtomatig, ac roedd yn golygu bod yn rhaid i'r data gael ei ddehongli gan bobl.

Gan fod y system wedi bod ar waith am flwyddyn lawn erbyn hyn, mae Tîm Diogelu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd wedi datblygu dangosfyrddau sy'n ei gwneud yn bosibl i adroddiadau am weithgarwch gael eu cynhyrchu'n awtomatig. Mae'r adroddiadau hyn yn golygu bod modd dadansoddi gweithgarwch diogelu'n fwy effeithiol, ac maent o gymorth i adnabod themâu a thueddiadau newydd.



## Manteision

Gan fod y system wedi'i datblygu yn genedlaethol, mae'r holl adroddiadau a gynhyrchir yn deillio o set ddata sydd wedi'i dilysu yn llawn, a gellir eu defnyddio'n hyderus i fodloni gofynion lleol a chenedlaethol o ran adrodd. Mae'r system hefyd yn gwella'n sylweddol allu'r tîm i ymateb yn brydlon i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, gyda bach iawn o darfu.

## Yn y dyfodol

Mae gwaith cenedlaethol ar y gweill ar hyn o bryd – gyda chyfraniad gweithredol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – er mwyn integreiddio'r system yn llawn yn y broses ar gyfer atgyfeiriadau diogelu. Bydd hynny'n sicrhau bod modd i'r holl wybodaeth berthnasol am ddiogelu gael ei chadw'n ddiogel a'i chyrchu mewn un system gynhwysfawr.

# Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

**Wrth edrych tua 2026/2027, bydd y Rhwydwaith yn parhau i adeiladu ar y sylfaen wybodaeth a'r cydberthnasau cadarn y mae wedi'u creu hyd yma, gan gydweithio er mwyn creu 'Cymru lle mae pawb yn ddiogel'.**

Bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei ysgogi gan newidiadau mewn deddfwriaeth ac arweiniad statudol, sy'n digwydd ar hyn o bryd ac sydd ar ddod, gan ddysgu o'r adolygiadau gan gymheiriaid, adolygiadau diogelu diweddar, argymhellion ac adborth. Bydd y Rhwydwaith yn parhau i alinio gweithgarwch diogelu â cham nesaf gwaith cynllunio strategol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan roi sylw penodol i atal, ymyrryd yn gynnar, llais y goroeswr, hyder y gweithlu, a'r rhyngwyneb rhwng diogelu a chymorth arbenigol.

Canolbwyntir yn gadarn ar roi'r cynnyrch ansawdd a sicrwydd ym maes diogelu ar waith, a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod diwethaf. Bydd digwyddiadau dysgu'n ymateb i themâu diogelu sy'n codi yn aml neu themâu diogelu newydd.

Caiff materion newydd a fyddai'n elwa o arweinyddiaeth a chysondeb ar draws GIG Cymru eu hystyried drwy gydol y cyfnod cyflawni.

## Bydd y canlyniadau a gyflawnir yn ystod y cyfnod nesaf yn cynnwys:

- Gweithredu'r Fframwaith Dysgu ar gyfer Diogelu, gan ddefnyddio dysgu i fireinio arferion a gwella effeithiolrwydd diogelu cenedlaethol.
- Gweithredu'r Datganiad Ansawdd a'r Metrigau Diogelu, a fydd yn cynnwys cyflwyno Modiwl Diogelu Datix ar raddfa ehangach.
- Rhaglen gwmpasu ar gyfer ymgysylltu a dysgu ym maes diogelu yng nghyswllt gofal sylfaenol.
- Datblygu rhaglen hyfforddiant ynghylch diogelu Lefel 5/6 ar gyfer Byrddau ac Arweinwyr Gweithredol GIG Cymru.
- Digwyddiadau Gwrando, Dysgu a Gwella amlasiantaeth ynghylch diogelu, a fydd yn ymateb i themâu diogelu sy'n codi yn aml neu themâu diogelu newydd.

